



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

# **Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol**

**Daflen Ffeithiau 6: Talu am Ofal**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Talu am Wasanaethau

Gall Awdurdod Lleol godi tâl am y gofal a chymorth yr ydych yn ei gael (neu, yn achos gofalwyr, y cymorth ydych yn ei gael). Bydd rhai o fanylion y trefniadau talu ym mhob Awdurdod Lleol yn dibynnu a ydych chi'n cael gofal mewn cartref gofal, yn eich cartref eich hun neu yn y gymuned.

Ni all yr Awdurdod Lleol godi mwy na'r hyn mae'n ei gostio iddynt hwy i ddarparu'r gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), ond gallant godi tâl am drefnu'r gofal a chymorth hwnnw. Nid oes yn rhaid i Awdurdod Lleol godi tâl ar ofalwr am gymorth gan gydnabod y cyfraniad pwysig a wneir gan ofalwyr, er y gall godi tâl os yw'n dymuno.

Fodd bynnag, ni chaiff yr Awdurdod Lleol godi tâl am rai mathau o ofal a chymorth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trafnidiaeth i fynychu gwasanaeth dydd (os yw'r drafnidiaeth yn cael ei darparu gan yr Awdurdod Lleol a bod angen y drafnidiaeth i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth, neu anghenion cymorth gofalwr).
- Ailalluogi (am hyd at 6 wythnos gyntaf y cyfnod ail-alluogi).
- Gwasanaethau eiriolaeth sydd eu hangen i'ch galluogi i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n gysylltiedig â diwallu eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth ar gyfer gofalwyr). Am ragor o wybodaeth, gweler yr Adran ar Hawl i Eiriolaeth.
- Darparu gwybodaeth a chyngor i chi. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n dweud faint fydd yn rhaid i chi ei dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth os ydych chi'n ofalwr), a elwir yn 'ddatganiad o ddyfarniad', a chynnal asesiad ariannol.

Hefyd, ni chaiff Awdurdod Lleol godi tâl am ofal a chymorth ar gyfer:

- unigolyn sy'n dioddef o unrhyw ffurf ar glefyd Creutzfeldt-Jakob ac sydd wedi cael diagnosis clinigol
- gwasanaethau ôl-ofal yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Adran 117).

Rhaid i Awdurdod Lleol gynnal Asesiadau Ariannol i asesu eich sefyllfa ariannol i gyfrifo a yw'n bosibl i chi dalu cost eich gofal a chymorth (neu gymorth os ydych chi'n ofalwr).

Bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r asesiad ariannol i benderfynu a allwch fforddio i dalu'r 'ffi safonol' am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr). Y 'ffi safonol' yw'r swm y bydd yn rhaid i chi ei dalu oni bai bod yr asesiad ariannol yn dweud na allwch fforddio hynny.

I gyfrifo a allwch chi fforddio talu'r 'ffi safonol, rhaid i'ch Awdurdod Lleol ddefnyddio'r rheoliadau cenedlaethol ar asesiadau ariannol i gyfrifo eich incwm (h.y. y budd-daliadau rydych yn eu cael) a'ch cyfalaf (h.y. cynilion, eiddo). Fodd bynnag, nid oes yn rhaid i Awdurdod Lleol gyfrifo faint y gallwch fforddio ei dalu os yw tâl gwasanaeth yn costio'r un faint i bawb neu os yw'r gwasanaeth ar gael yn ddi-dâl.

Os nad oes gan unigolyn alluogrwydd, gallant ddal i gael eu hasesu fel rhywun sy'n gallu cyfrannu tuag at gost eu gofal a chymorth. Rhaid i Awdurdodau Lleol ymgynghori a chysylltu ag aelodau'r teulu ac, os yn bosibl, dylent weithio â rhywun sydd ag awdurdod cyfreithiol i wneud penderfyniadau ariannol ar ran yr unigolyn hwnnw.

Hefyd, gall taliadau am ofal a chymorth gael eu codi ar bobl mewn carchar a byddant hwythau hefyd yn cael asesiad ariannol.

Am ragor o wybodaeth, gweler Adran 59 o'r Ddeddf, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol).

## Asesiadau Ariannol

Cyn cynnal asesiad ariannol, rhaid i Awdurdod Lleol roi'r manylion canlynol i chi mewn fformat sy'n addas i chi:

- Manylion am eich gofal a chymorth a syniad o'r gwasanaethau y gellir codi tâl arnoch amdanynt
- Manylion am unrhyw daliadau uniongyrchol yr hoffech eu cael
- Manylion am Bolisi Codi Tâl yr Awdurdod Lleol, gan gynnwys:

- y gwasanaethau y codir tâl amdanynt
- cost y gwasanaethau hyn (y 'ffi safonol')
- y gwasanaethau sydd â ffi unffurf
- yr uchafswm wythnosol cenedlaethol y gall Awdurdod Lleol ei godi neu uchafswm wythnosol is y mae'r Awdurdod Lleol wedi penderfynu ei bennu o'i wirfodd

• Manylion am broses asesiad ariannol yr Awdurdod Lleol

• Manylion am unrhyw wybodaeth neu ddogfennau y bydd angen i chi eu rhoi iddynt a manylion am sut ac erbyn pryd i'w rhoi iddynt (a gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd os na fyddwch yn eu rhoi iddynt). Rhaid i'r Awdurdod Lleol roi o leiaf 15 diwrnod gwaith i chi i roi'r wybodaeth hon. Gallwch ofyn i'r Awdurdod Lleol am ragor o amser os oes rhesymau am hynny a rhaid i'r Awdurdod Lleol gytuno a rhoi gwybod i chi faint yn rhagor o amser a roddir i chi. Os byddant yn gwrthod rhoi rhagor o amser, rhaid iddynt roi rhesymau pam eu bod yn gwrthod.

• Gwybodaeth am yr hyn fydd yn digwydd os byddwch yn gwrthod gadael i'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad ariannol;

• Gwybodaeth am y 'datganiad o ddyfarniad' ar faint y gallwch fforddio ei dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) a'r cymorth y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei roi i chi yn dilyn eich asesiad ariannol;

• Manylion am y 'terfyn cyfalaf' (sydd ar hyn o bryd yn £50,000 am ofal preswyl a £24,000 am ofal amhreswyl) a gwybodaeth am yr hyn all ddigwydd os yw eich cyfalaf (h.y. cynilion, eiddo) yn uwch na hyn

• Manylion am unrhyw gyfleuster ymweliadau cartref y mae'r Awdurdod Lleol yn ei ddarparu i'ch helpu i lenwi ffurflenni

• Enwau pobl yn yr Awdurdod Lleol y gallwch gysylltu â hwy os bydd angen rhagor o wybodaeth neu gymorth arnoch yn ystod proses yr asesiad ariannol

• Gwybodaeth am eich hawl i benodi trydydd parti i gynorthwyo, neu i weithredu ar eich rhan, yn ystod rhan neu holl broses yr asesiad ariannol a manylion cyswllt mudiadau a all wneud hyn.

• Manylion cyswllt unigolyn yn yr awdurdod y gallwch gysylltu â hwy os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.

Mewn rhai amgylchiadau ni fydd yn rhaid i Awdurdod Lleol gynnal asesiad ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- os yw tâl gwasanaeth yn ffi unffurf
- os ydych chi'n gwrthod asesiad ariannol
- os na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen o fewn amser penodol
- os ydych chi'n dioddef o unrhyw ffurf o glefyd Creutzfeldt-Jakob (CJD) ar ôl cael diagnosis clinigol
- ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal yn unol â Deddf Iechyd Meddwl 1983 (Adran 117)
- ar gyfer gwasanaethau ail-alluogi (am hyd at 6 wythnos gyntaf y cyfnod ail-alluogi)
- os yw eich asesiad yn dangos mai gwasanaethau eiriolaeth yn unig sydd eu hangen arnoch.

Dylai Awdurdodau Lleol roi gwybodaeth a chyngor i'ch helpu chi i ddeall os oes gennych hawl i gael unrhyw fudd-daliadau.

Mae asesiad i ganfod faint y gallwch fforddio'i dalu'n debygol o ddigwydd o leiaf unwaith bob blwyddyn. Fodd bynnag, os bydd eich amgylchiadau'n newid yn dilyn asesiad ariannol, rhaid i'r Awdurdod Lleol ailasesu faint y gallwch fforddio'i dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr). Hefyd, rhaid iddynt ailasesu eich sefyllfa ariannol os byddwch yn gofyn iddynt wneud hynny.

Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'r Awdurdod Lleol baratoi datganiad ar eich cyfer sy'n dweud faint y bydd yn rhaid i chi ei dalu. Rhaid i'r datganiad hwn egluro sut y cafodd yr asesiad ei wneud, faint fydd y tâl a godir, faint fydd y cyfraniad neu'r ad-daliad a pha mor aml y bydd yn cael ei wneud ac, os oes unrhyw amrywiad yn y symiau hyn, y rheswm am hynny. Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod hwn yn cael ei roi i chi mewn fformat sy'n addas ar eich cyfer. Gall hwn gael ei roi ochr yn ochr â'ch cynllun gofal a chymorth neu ar wahân.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, Rheoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Tudalen 10.

## Ffioedd unffurf

Gall Awdurdodau Lleol godi ffi unffurf am ofal a chymorth lefel isel, cost isel a fydd fel arfer yn cynnwys gwasanaethau sy'n cymryd lle tasgau o ddydd i ddydd arferol (e.e. prydau bwyd neu olchi dillad). Nid yw'n dderbyniol i Awdurdodau Lleol bennu ffi unffurf am yr holl wasanaeth gofal a chymorth fel ffordd bosibl o osgoi ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf.

Ni chaiff ffioedd unffurf fod yn fwy na'r swm y mae'n ei gostio i'r Awdurdod Lleol i ddarparu'r gwasanaeth. Os codir ffi unffurf am wasanaethau, nid oes yn rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal asesiad ariannol. Fodd bynnag, rhaid i Awdurdod Lleol ystyried yr effaith gronnus ar eich incwm os oes yn rhaid i chi dalu nifer o ffioedd unffurf. Mewn sefyllfa o'r fath, er bod gwasanaethau â ffi unffurf wedi'u heithrio o asesiad ariannol, rhaid i Awdurdod Lleol gynnig asesiad ariannol i chi os ydych chi'n teimlo na fyddwch yn gallu fforddio talu nifer o ffioedd unffurf.

Gall Awdurdod Lleol hefyd godi ffi unffurf am wasanaethau ataliol. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Lleol osgoi sefyllfa lle byddai'r ffi unffurf a godir ganddynt yn arwain at niferoedd isel sy'n manteisio ar wasanaethau ataliol a chymorth.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015 a Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Tudalen 15.

## Asesiad ariannol (ar gyfer gofal a chymorth nad yw'n cynnwys llety mewn cartref gofal)

Wrth gynnal asesiad ariannol ar gyfer gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) rhaid i'r Awdurdod Lleol:

- Gyfrifo eich cyfalaf (e.e. cynilion, eiddo). Mae hyn hefyd yn cynnwys rhestr benodedig o incwm ychwanegol a fydd yn cael ei gyfrif fel cyfalaf. Gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (rheoliad 19) am ragor o fanylion.
- Tynnu gwerth eich unig neu brif gartref o'r cyfrifiad (gan fod eiddo'n cael ei ystyried mewn asesiad ariannol ar gyfer gofal preswyl yn unig).

Os, yn dilyn yr asesiad hwn yw eich cyfalaf yn fwy na £24,000 (a elwir yn derfyn cyfalaf) yna bydd yn rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr). Os oes gennych chi fwy o gyfalaf na'r terfyn cyfalaf o £24,000 gallwn, er hynny, ofyn i'ch Awdurdod Lleol i drefnu eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr). Fodd bynnag, byddwch yn dal i orfod talu cost lawn eich gofal a chymorth hyd at yr uchafswm tâl wythnosol o £100 nes bydd eich cyfalaf ar yr un lefel neu o dan y terfyn cyfalaf o £24,000.

Os yw eich cyfalaf yn £24,000 neu lai, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu faint y gallwch fforddio'i dalu tuag ar eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr); gelwir hwn yn 'brawf modd'. Wrth wneud hynny, ni chânt gynnwys eich cyfalaf (h.y. ni ellir mynnu eich bod yn cyfrannu at gost eich gofal a chymorth o'r cyfalaf sydd gennych os yw'n llai na'r terfyn cyfalaf o £24,000).

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Tudalennau 21 a 23.

## Uchafswm Ffi Wythnosol

Yn achos gofal a chymorth nad yw'n cynnwys llety mewn cartref gofal, ni chaiff yr Awdurdod Lleol godi mwy arnoch na'r uchafswm ffi wythnosol am yr holl ofal a chymorth rydych yn ei gael. Mae'r uchafswm ffi wythnosol hon yn £100 ar hyn o bryd. Mae hyn yn golygu na chaiff yr Awdurdod Lleol godi mwy na'r uchafswm ffi wythnosol hon arnoch waeth faint o ofal a chymorth a fydd ei angen arnoch. Os yw cost eich gofal a chymorth yn llai nag uchafswm y ffi wythnosol o £100, bydd yn codi llai arnoch.

Fodd bynnag, ni fydd yr uchafswm ffi wythnosol yn cynnwys cost unrhyw wasanaethau sy'n golygu ffi unffurf (gan nad oes angen asesiad ariannol ar gyfer gwasanaethau lle codir ffi unffurf). Bydd cost unrhyw wasanaethau sy'n codi ffi unffurf felly yn ychwanegol at yr uchafswm ffi wythnosol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn:

- Cyfrifo cost (y ffi safonol) eich holl ofal a chymorth
- Tynnu cost unrhyw wasanaethau sy'n codi ffi unffurf (gan y bydd yn rhaid i chi dalu hwn yn ychwanegol / ar wahân)

- Gweithredu'r uchafswm ffi wythnosol ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl (h.y. £100 neu swm is os yw'r Awdurdod Lleol yn dewis gosod swm is yn ei ardal) neu swm is os yw cost eich gofal a chymorth yn llai na £100,
- Defnyddio'r swm a gyfrifwyd i benderfynu, ar sail eich incwm, faint y gallwch fforddio'i dalu tuag at y gost hon.

Am ragor o wybodaeth am yr Uchafswm Ffi Wythnosol, gweler Rheoliad 7 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015, Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) Tudalen 17.

## Asesu incwm (gofal amhreswyl)

Wrth gyfrifo faint y gallwch fforddio'i dalu, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried lefel eich incwm. Ni chaiff enillion o'ch cyflogaeth eu cynnwys wrth gyfrifo faint y gallwch fforddio'i dalu. Gall Awdurdod Lleol asesu incwm cwpl, ond dim ond os byddai hynny'n well yn ariannol i chi.

Fodd bynnag, bydd incwm o'r rhan fwyaf o fudd-daliadau lles yn cael ei gynnwys yn yr asesiad ariannol, ac eithrio:

- Taliadau uniongyrchol
- Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i i gyn aelodau'r Lluoedd Arfog o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog;
- Elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl;
- Elfen symudedd Taliadau Annibyniaeth Bersonol;
- Credyd Treth Gwaith

Am ragor o wybodaeth am enillion a budd-daliadau lles na chaiff eu cynnwys, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 a Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Atodiad B - trin incwm, Tudalen 35).

Os yw eich budd-daliadau anabled wedi eu cynnwys yn yr asesiad o'r hyn y gallwch fforddio'i dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), dylai'r Awdurdod Lleol adael i chi gadw digon o'r budd-dal i dalu am wariant angenrheidiol



cysylltiedig ag anabledd i dalu am unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu trwy eich gofal a chymorth. Am ragor o fanylion am hyn, gweler Rheoliadau 12 a 27 (Isafswm Incwm ar gyfer person y darperir gofal a chymorth amhreswyl iddo) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015.

Wrth ystyried pa wariant cysylltiedig ag anabledd i'w 'ddiystyru' o'ch asesiad, gallant hefyd ystyried y costau a all godi yn sgil eitemau arbennig neu ofynion fel costau ychwanegol am ddillad gwely oherwydd anymataliaeth, er enghraifft. Ceir rhestr lawn sy'n dangos yr hyn y mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i'w ddiystyru fel gwariant cysylltiedig ag anabledd yn Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Atodiad B – trin incwm, Tudalen 43).

## Isafswm Incwm

Os ydych chi'n cael gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) y tu allan i gartref gofal, byddwch yn dal i orfod talu eich costau byw dyddiol fel rhent, bwyd, cyfleustodau ac ati. Rhaid i Awdurdod Lleol felly eich gadael â digon o arian i dalu'r costau hyn, a adwaenir fel yr 'isafswm incwm'.

Yr Isafswm Incwm, a elwid gynt yn Lwfans Treuliau Personol, yw isafswm yr incwm sy'n rhaid ei adael i chi bob wythnos i'w wario fel y mynnoch. Mae'r Isafswm Incwm yn gymwys os ydych chi'n cyfrannu at eich gofal a chymorth.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod gennych ddigon o arian ar ôl a fyddai'r un faint â'ch 'hawlogaeth sylfaenol' i fudd-dal lles perthnasol ynghyd â 'chlustog' ychwanegol o 35%. Am ragor o fanylion, gweler Rheoliad 12 a 27 (Isafswm Incwm ar gyfer person y darperir gofal a chymorth amhreswyl iddo) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015.

## Asesiad ariannol (ar gyfer llety mewn cartref gofal)

Wrth gynnal Asesiad Ariannol ar gyfer gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) rhaid i'r Awdurdod Lleol:

- Gyfrifo eich cyfalaf (e.e. cynilion, eiddo). Mae hyn hefyd yn cynnwys rhestr benodedig o incwm ychwanegol a fydd yn cael ei drin fel cyfalaf. Gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015 (Rheoliad 19) am ragor o fanylion.

Os, yn dilyn yr asesiad, gwelir bod eich cyfalaf yn fwy na £50,000 yna bydd yn rhaid i chi dalu cost lawn eich gofal a chymorth. Os oes gennych fwy o gyfalaf na'r terfyn cyfalaf o £50,000, gallwch ddal i ofyn i'ch Awdurdod Lleol drefnu eich gofal a chymorth. Fodd bynnag, byddwch yn dal i orfod talu cost lawn eich gofal a chymorth nes bydd eich cyfalaf wedi gostwng i'r terfyn cyfalaf o £50,000 neu fod eich cyfalaf wedi gostwng yn is na'r terfyn).

Os yw eich cyfalaf yn £50,000 neu lai, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu faint y gallwch fforddio'i dalu tuag ar eich gofal a chymorth.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Asesiad Ariannol) (Cymru) 2015, Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Tudalennau 21 a 23.

## Diystyru eiddo

Er y bydd gwerth eich cartref yn cael ei gynnwys yng nghyfrifiad eich cyfalaf os ydych chi'n mynd i gael gofal a chymorth trwy lety mewn cartref gofal, mae rhai amgylchiadau lle na chaiff gwerth eich cartref ei gynnwys, ac adwaenir hyn fel 'diystyru eiddo'. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Os ydych chi'n cael gofal a chymorth dros dro mewn cartref gofal a'ch bod yn bwriadu dychwelyd adref.
- Os ydych chi'n cael gofal a chymorth dros dro mewn cartref gofal a'ch bod yn cymryd camau rhesymol i waredu eich cartref i gael eiddo mwy addas.
- Os ydych chi'n cael gofal a chymorth mewn cartref gofal ac nad ydych yn byw mwyach yn eich prif a'ch unig gartref ond ei fod wedi'i feddiannu (am ran o'r amser neu'n llawn amser) gan un o'r bobl ganlynol:
  - eich partner, partner sifil neu gyn bartner, oni bai eich bod wedi dieithrio neu ysgaru
  - unig riant a phlentyn dibynnol sy'n bartner wedi dieithrio neu ysgaru oddi wrthyhch
  - eich perthynas neu aelod o'ch teulu (priod, riant gan gynnwys rhiant sy'n mabwysiadu, rhiant yng nghyfraith, llys riant, llysfab neu lysferch, brawd, chwaer, nain neu daid, ewythr, modryb, nai, nith), sydd naill ai dros 60 oed, sy'n analluog neu sy'n blentyn y preswlydd ac sydd o dan 18 oed.

Er mwyn i hyn fod yn gymwys, rhaid i'ch eiddo fod wedi'i feddiannu'n ddi-dor cyn i chi fynd i gartref gofal. Gellir diffinio 'analluog' fel yr unigolyn sy'n cael budd-daliadau penodol (neu'n gymwys i gael budd-daliadau penodol): budd-daliadau analluogrwydd, lwfans anabledd difrifol, lwfans byw i'r anabl, taliadau annibyniaeth bersonol, taliadau annibyniaeth y lluoedd arfog, lwfans gweini, lwfans gweini cyson, neu fudd-dal tebyg.

Yn y rhan fwyaf o achosion bydd yn amlwg a yw eiddo wedi'i feddiannu gan berthynas cymwys fel eu prif neu unig gartref. Os nad yw'n eglur, gall Awdurdod Lleol gynnal ymchwiliad ffeithiol i wneud penderfyniad. Nid yw ymlyniad emosiynol wrth eiddo ynddo'i hun yn ddigon i allu ei ddiystyru. Os oes yn rhaid i berthynas cymwys fyw yn rhywle arall am reswm penodol (h.y. oherwydd eu gwaith neu ddedfryd o garchar) ond bod yr eiddo'n dal i fod yn brif neu unig gartref iddynt, yna bydd y diystyru'n gymwys.

Gall Awdurdod Lleol hefyd ddefnyddio'i ddisgresiwn wrth gymhwyso 'diystyru eiddo' mewn amgylchiadau eraill (e.e. pan fo'r eiddo'n unig breswylfa rywun sydd wedi ildio'u cartref eu hunain er mwyn bod yn ofalwr i chi). Fodd bynnag, bydd angen i'r Awdurdod Lleol gydbwysu'r disgresiwn hwn gan sicrhau nad yw eich asedau'n cael eu cadw ar gost i'r coffrau cyhoeddus.

Er mwyn caniatáu digon o amser i chi i wneud penderfyniadau ar sut i dalu am eich costau gofal cartref, ac os yw'ch cyfalaf o dan y terfyn ariannol (£50,000), rhaid i Awdurdod Lleol weithredu'r 'diystyru eiddo 12 wythnos' pan:

- fyddwch yn mynd i gartref gofal gyntaf; neu
- os yw'r perthynas cymwys a oedd yn meddiannu'ch eiddo yn marw'n annisgwyl neu'n symud i gartref gofal ei hun.

Hefyd, mae gan Awdurdod Lleol ddisgresiwn i weithredu'r diystyru eiddo 12 wythnos os oes newid sydyn ac annisgwyl yn eich amgylchiadau.

Am ragor o fanylion ar ddiystyru eiddo, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Aseiad Ariannol) (Cymru) 2015 a Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Aseiad Ariannol).

## Asesu incwm (cartrefi gofal)

Wrth gyfrifo faint y gallwch fforddio'i dalu, rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried lefel eich incwm. Ni chaiff enillion o'ch cyflogaeth eu cynnwys wrth gyfrifo faint y gallwch fforddio'i dalu. Fodd bynnag, bydd incwm o'r rhan fwyaf o fudd-daliadau lles yn cael eu cynnwys yn yr aseiad ariannol, ac eithrio:

- Taliadau uniongyrchol
- Taliadau Incwm Gwarantedig a wneir i i gyn aelodau'r Lluoedd Arfog o dan Gynllun lawndal y Lluoedd Arfog;
- Elfen symudedd Lwfans Byw i'r Anabl;
- Elfen symudedd Taliadau Annibyniaeth Bersonol;
- Credyd Treth Gwaith

Am ragor o wybodaeth am enillion a budd-daliadau lles na chaiff eu cynnwys, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Aseiad Ariannol) (Cymru) 2015, Rheoliad 4 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Aseiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Aseiad Ariannol) (Atodiad B - trin incwm, Tudalen 35).

Os yw eich budd-daliadau anabledd wedi eu cynnwys yn yr aseiad o'r hyn y gallwch fforddio'i dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), dylai'r Awdurdod Lleol adael i chi gadw digon o'r budd-dal i dalu am wariant angenrheidiol cysylltiedig ag anabledd i dalu am unrhyw anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu trwy eich gofal a chymorth.

Ni ddylai unrhyw wariant cysylltiedig ag anabledd y gellid ei 'ddiystyru' o'ch aseiad gael ei dalu o'ch pecyn gofal preswyl. Gallai hyn gynnwys y costau a all godi i dalu am eitemau arbennig, fel costau ychwanegol am esgidiau arbenigol, er enghraifft. Gellir gweld rhestr lawn sy'n dangos yr hyn y mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i'w ddiystyru fel gwariant cysylltiedig ag anabledd yn Rhannau 4 a 5 y Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Aseiad Ariannol) (Atodiad B – trin incwm, Tudalen 43).

Dim ond wrth asesu'r hyn y gallwch fforddio'i dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr) y caiff yr Awdurdod Lleol gynnwys eich incwm. Fodd bynnag, gall Awdurdod Lleol asesu incwm cwpl ond dim ond os byddai hynny'n well i chi'n ariannol.

## Isafswm Incwm (cartrefi gofal)

Yr Isafswm Incwm, a elwid gynt yn Lwfans Treuliau Personol, yw isafswm yr incwm sy'n rhaid ei adael i chi bob wythnos i'w wario fel y mynnoch – ni chaiff yr Awdurdod Lleol roi pwysau arnoch i wario'ch Isafswm Incwm mewn ffordd benodol. Ni ddylai gael ei ddefnyddio i dalu am unrhyw agwedd ar eich gofal a chymorth sy'n cael ei ddarparu gan yr Awdurdod Lleol. Hefyd,

ni chaiff yr Awdurdod Lleol leihau eich incwm fel y byddai'n is na £33 yr wythnos. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd angen mwy na'ch Isafswm Incwm yn unig arnoch. Am ragor o fanylion, gweler Rheoliadau 13 ac 28 (Isafswm Incwm ar gyfer person y darperir llety iddo mewn cartref gofal) o Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015, Rheoliad 3 o Reoliadau Gofal a Chymorth (Dewis o Lety, Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2017 a Rhannau 4 a 5 o God Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol) (Atodiad B - trin incwm, Tudalen 44).

## Cost ychwanegol

Rhaid i Awdurdod Lleol drefnu llety i chi yn y llety a ffeirir gennych, ar yr amod bod meini prawf penodol yn cael eu bodloni. Os byddwch yn dewis cartref gofal sy'n costio mwy na'r hyn y byddai disgwyl i'r Awdurdod Lleol ei dalu fel arfer am y math hwnnw o lety, bydd yn rhaid cael trefniant i benderfynu sut y bydd y gost ychwanegol yn cael ei thalu. Mae hyn yn cael ei adnabod fel y gost ychwanegol a dyma'r gwahaniaeth rhwng y swm y byddai disgwyl i'r Awdurdod Lleol ei dalu ac union gost y cartref gofal a ddewiswyd gennych.

Os ydych chi wedi dewis cartref gofal mwy costus rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud yn siŵr eich bod yn deall holl oblygiadau hyn ac y bydd yn rhaid i'r gost ychwanegol gael ei thalu trwy gydol yr amser y byddwch yn aros yn y cartref gofal hwnnw. Rhaid i'r Awdurdod Lleol sicrhau bod yr unigolyn hwnnw a fydd yn talu'r gost ychwanegol yn cael digon o wybodaeth a chynghor i sicrhau eu bod yn deall y telerau ac amodau. Gallant ofyn am brawf gan yr unigolyn a fydd yn talu'r gost ychwanegol eu bod yn gallu fforddio ysgwyddo'r gost honno cost.

Os, fodd bynnag, yr ydych wedi cael eich lleoli mewn cartref gofal mwy costus am nad yw'r Awdurdod Lleol wedi llwyddo i ddod o hyd i gartref gofal ar eich cyfer am y gost mae'n ei thalu fel arfer, yr Awdurdod Lleol fydd yn gorfod talu'r gost ychwanegol.

Am ragor o wybodaeth am gostau ychwanegol, gweler Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Atodiad C – Dewis Llety a chostau eraill cysylltiedig, Tudalen 50.

## Taliadau Gohiriedig

Os yw eich anghenion gofal a chymorth i gael eu diwallu trwy lety mewn cartref gofal, mae gennych hawl i gael cytundeb taliad gohiriedig â'ch Awdurdod Lleol, ar yr amod bod amodau penodol yn cael eu bodloni. Bydd cytundeb taliad gohiriedig yn golygu y bydd taliadau am eich costau gofal a chymorth yn cael eu gohirio tan rywbryd yn y dyfodol. Nid yw hyn yn golygu na fydd yn rhaid talu'r gost, mae'n oedi'r taliad yn unig gan fod yr Awdurdod Lleol yn rhoi benthyciad y byddwch yn ei dalu'n ôl (ar ôl gwerthu eich cartref ar ôl eich marwolaeth, er enghraifft).

I fod yn gymwys i gael taliad gohiriedig, rhaid i'ch cartref fod yn sicrwydd digonol i dalu cost eich gofal a chymorth ynghyd ag unrhyw log a ffioedd gweinyddol a all gael eu codi gan eich Awdurdod Lleol o ganlyniad i drefnu'r taliad gohiriedig. Fodd bynnag, rhaid i Awdurdod Lleol roi amcangyfrif i chi o gost weinyddol y taliad gohiriedig cyn gwneud cytundeb â chi. Hefyd, rhaid i'r Awdurdod Lleol eich hysbysu o gyfradd y llog a godir (ni chaiff fod yn fwy na 0.15% ) cyn gwneud cytundeb â chi.

Gellir gwrthod taliadau gohiriedig mewn rhai amgylchiadau. Er enghraifft, os nad yw gwerth eich cartref yn ddigon i dalu cost y benthyciad a fydd yn talu am eich gofal a chymorth.

Os yw Awdurdod Lleol yn credu y byddech yn elwa ar neu'n gymwys i gael cytundeb taliad gohiriedig rhaid iddo sicrhau bod yr wybodaeth honno'n cael ei rhoi i chi (mewn ffordd sy'n addas ar eich cyfer) a'i bod yn egluro sut y mae cytundeb taliad gohiriedig yn gweithio.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliad Gohiriedig (Cymru) 2015 a Rhannau 4 a 5 o'r Cod Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Asesiad Ariannol), Atodiad D – Cytundebau Taliad Gohiriedig, Tudalen 54.

## Amddifadu o asedau

Os oes gennych chi ased (e.e. cynilion neu eiddo) yr ydych yn eu trosglwyddo i rywun arall i osgoi ei ddefnyddio i dalu am eich gofal a chymorth, gall yr Awdurdod Lleol ddal i'ch asedu fel pe bai'r ased hwnnw gennych o hyd. Gall Awdurdod Lleol



benderfynu bod amddifadu o asedau wedi digwydd os ydynt yn credu eich bod wedi lleihau eich asedau'n fwriadol i osgoi talu am eich gofal a chymorth.

Am ragor o wybodaeth, gweler Rhannau 4 a 5 o God Ymarfer (Gosod Ffioedd ac Aseiad Ariannol), Atodiad F – Adennill Dyled ac Amddifadu o Asedau, Tudalen 73.